



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

# Tai Amlfeddiannaeth

## Cais am Drwydded Newydd

o 15 Chwefror 2021

**Defnyddir y ffurflen hon er mwyn gwneud cais am drwydded HMO newydd o dan adran 63, Deddf Tai 2004. Mae Polisi Trwyddedu HMO 2020 y cyngor yn berthnasol i'r cais hwn ac unrhyw drwydded HMO ddilynol.**

**Os ydych yn gwneud cais i adnewyddu trwydded HMO bresennol, defnyddiwch y ffurflen Cais i Adnewyddu Trwydded.**

Rhaid cynnwys ffi gyda'r cais hwn (Gweler nodyn arweiniol 9).

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar dudalennau 17 - 19 yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon. Gall ceisiadau anghyflawn neu hwyr arwain at ddychwelyd y ffurflen hon atoch a lleihau cyfnod eich trwydded.

Os oes gennych fwy nag un tŷ amlfeddiannaeth, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob eiddo.

**Llenwch y ffurflen gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU BRAS ac inc du.**

Os oes angen mwy o le i ateb unrhyw gwestiwn, defnyddiwch ddalennau ychwanegol, gan nodi pa gwestiwn mae eich ateb yn ymwneud ag ef ac atodwch y dalennau i'r ffurflen gais.

**THIS FORM IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH**

**1.1 CYFEIRIAD YR HMO I'W DRWYDDEDU**


---



---



---



---

Côd post:

**1.2 MANYLION DEILIAD ARFAETHEDIG Y DRWYDDED****(Person y bydd ei enw ar y drwydded – rhoddir trwyddedau i unigolion, nid cwmnïau neu bartneriaethau)**

Teitl: Mr Mrs Miss Ms Arall:

Enw Cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad:

Côd post:

E-bost:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

Rhif Ffôn Symudol:

**1.3 PERCHNOGAETH A RHEOLAETH DROS YR EIDDO I'W****Ai deiliad arfaethedig y drwydded yw perchennog yr eiddo?****Oes/Nac oes****A oes gan ddeiliad arfaethedig y drwydded reolaeth dros yr eiddo?****Oes/Nac oes****(h.y. mae ganddo hawl gyfreithiol i gael yr incwm rhent o'r eiddo).****A oes gan ddeiliad arfaethedig y drwydded y pwerau angenrheidiol i reoli'r eiddo?****Ie / Na**

Gan gynnwys:

- Cyhoeddi cytundebau tenantiaeth a throi meddianwyr allan
- Mynediad i bob rhan o'r safle
- Awdurdodi unrhyw wariant angenrheidiol

**Oes / Nac oes****Oes / Nac oes****Oes / Nac oes****A oes gan unrhyw un arall fuddiant cyfreithiol yn yr eiddo (e.e. fel rhydd-ddeiliad, lesddeiliad, darparwr morgais)?****Oes/Nac oes**

Os oes, rhowch fanylion yn Adran 1.4.

1.4

Rhowch fanylion am berchennog/berchnogion yr eiddo (gan gynnwys eich darparwr morgais), unrhyw un arall sydd â buddiant cyfreithiol yn yr eiddo a/neu unrhyw un sydd wedi cytuno i gael ei rwymo gan amodau'r drwydded (os caiff ei rhoi). Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.

(a) Natur y Buddiant yn yr Eiddo:

Enw Cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad:

Côd post:

**Manylion Cyswllt:**

Rhif Ffôn Cartref:

Rhif Ffôn Gwaith:

Rhif Ffôn Symudol:

E-bost:

(b) Natur y Buddiant yn yr Eiddo:

Enw Cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

**Manylion Cyswllt:**

Rhif Ffôn Cartref:

Rhif Ffôn Gwaith:

Rhif Ffôn Symudol:

E-bost:

## 1.5

### RHEOLWR ARFAETHEDIG YR EIDDO

#### Ai deiliad arfaethedig y drwydded fydd rheolwr yr eiddo?

Ie/Na

Os 'ie', ewch i ran 1.6.

Os na, rhowch fanylion y rheolwr.

Enw Cyntaf:

---

Cyfenw:

---

Enw'r busnes:

---

Cyfeiriad (os yw'n sefydliad, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall):

---

---

---

#### Manylion Cyswllt:

Rhif Ffôn Cartref:

---

Rhif Ffôn Gwaith:

---

Rhif Ffôn Symudol:

---

E-bost:

## 1.6

### Os NAD deiliad arfaethedig y drwydded yw perchennog yr eiddo, rhaid i'r perchennog a deiliad arfaethedig y drwydded lofnodi'r caniatâd canlynol.

(a) Rwyf i, fel perchennog yr eiddo, drwy hyn yn rhoi fy nghaniatâd i'r person a enwir isod fod yn ddeiliad y drwydded:

---

Llofnod:

Dyddiad:

---

(b) Rwy'n cydsynio i gael fy enwi'n ddeiliad arfaethedig y drwydded ar gyfer yr eiddo uchod:

---

Llofnod:

Dyddiad:

---



**2.2** A yw deiliaid arfaethedig y drwydded wedi gwneud cais, neu a oes gofyn iddo wneud cais, am drwydded debyg ar gyfer eiddo mewn ardal awdurdod lleol arall?

Nodwch enw'r awdurdod lleol a chyfeiriadau'r eiddo.

---

---

---

**2.3** Rhowch gyfeiriadau'r holl eiddo eraill yn ardal Cyngor Abertawe y mae deiliad arfaethedig y drwydded wedi cael/yn bwriadu cael trwydded ar eu cyfer.

---

---

---

**2.4** A yw deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded yn berchen ar neu erioed wedi bod yn berchen ar eiddo y mae awdurdod lleol wedi gwrthod rhoi trwydded debyg ar ei gyfer neu ddirymu trwydded debyg? Nodwch enw'r awdurdod lleol a chyfeiriadau'r eiddo.

---

---

---

**2.5** A yw deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded yn berchen ar neu erioed wedi bod yn berchen ar eiddo sydd wedi bod yn destun gorchymyn rheoli dros dro neu derfynol o dan Ddeddf Tai 2004? Nodwch enw'r awdurdod lleol a chyfeiriad yr eiddo.

---

---

---

**2.6** A yw deiliad arfaethedig y drwydded neu'r asiant rheoli erioed wedi bod yn fethdalwr? Rhowch fanylion.

---

---

---

**RHEOLI'R EIDDO I'W DRWYDDEDU**

- (a) A roddir cytundeb tenantiaeth i ddeiliaid (neu ddatganiad ysgrifenedig arall **Ie / Na** o delerau deiliadaeth)?  
Efallai y bydd gofyn i chi gyflwyno copi o'r ddogfen hon gyda'ch cais.
- (b) A yw'r datganiad o dermau ysgrifenedig yn cynnwys unrhyw gymalau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? **Ydy / Nac ydy**
- (c) A yw'r datganiad o dermau ysgrifenedig yn cynnwys canllawiau ar weithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod i denantiaid am atgyweiriadau angenrheidiol a gwneud cwynion am yr eiddo? **Ydy / Nac ydy**
- (d) A oes angen blaendal ar ddechrau tenantiaeth newydd? **Oes / Nac oes**
- (e) A yw telerau'r blaendal tenantiaeth wedi'u nodi'n glir yn ysgrifenedig? **Ydyn / Nac ydyn**
- (f) A yw deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded yn aelod o unrhyw gynllun awdurdodedig gan y llywodraeth sy'n diogelu blaendaliadau tenantiaid? **Ydy / Nac ydy**

Os ydy, rhowch fanylion cyfeirnod darparwr y cynllun a'r landlord.

---



---



---



---

- (g) A roddir llyfr rhent i denantiaid? **Ie/Na**
- (h) A roddir derbynebaw i denantiaid am daliadau rhent? **Ie/Na**
- (i) Rhowch fanylion unrhyw weithdrefnau/trefniadau sydd gennych ar waith i:

Wirio darpar denantiaid (e.e. defnyddio gwasanaeth gwirio neu gynllun achredu, defnyddio tystlythyrau, etc.).

---



---



---



---

Sicrhau fod yr eiddo'n lân, yn ddiogel ac yn addas i fyw ynddo cyn pob tenantiaeth newydd.

---



---



---



---

**RHEOLI'R EIDDO I'W DRWYDDEDU parhad**

Cytuno ar restr adnoddau gyda phob tenant, gan roi manylion y dodrefn a'r offer a ddarparwyd, gan gynnwys cyflwr eitemau unigol.

---

---

---

---

Adolygu cyflwr cyffredinol yr eiddo (mewnol, allanol, gardd, etc.) yn ddigon rheolaidd i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da a diogel.

---

---

---

---

Mynd i'r afael ag atgyweiriadau a chwynion sydd wedi'u hadrodd o fewn cyfnod rhesymol.

---

---

---

---

Talu costau gwaith atgyweirio brys mawr neu welliannau i'r eiddo.

---

---

---

---

Derbyn ac ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys tenantiaid a/neu eu plant neu ymwelwyr neu sy'n effeithio arnynt .

---

---

---

---





## RHAN 3 Yr Eiddo

### 3.1 Nodwch y math o HMO y gwnaed y cais ar ei gyfer:

Tŷ amlfeddiannaeth

Fflat amlfeddiannaeth

Tŷ sydd wedi'i addasu ac sy'n cynnwys fflatiau'n unig

### 3.2 A ddefnyddiwyd yr eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth cyn 25 Chwefror 2016? Do/Naddo

Os na, rhowch y rhif cyfeirnod Caniatâd Cynllunio ar gyfer Newid Defnydd i HMO

\_\_\_\_\_

### 3.3 Nodwch fath yr eiddo:

Ar wahân  Pâr  Teras  Diwedd teras

### 3.4 Beth yw oed yr eiddo?

Cyn 1919  1919 - 1945  1946 - 1964  1965 - 1980  Ar ôl 1980

### 3.5 Sawl llawr sydd gan y Tŷ Amlfeddiannaeth?

(gan gynnwys isloriau ac ystafelloedd atig y gellir byw ynddynt, ond nid seleri)

1  2  3  4  5  6  7  8  9  10  Eraill  Nodwch .....

### 3.6 Nodwch nifer y:

Ystafelloedd gwely	
Ystafelloedd byw	
Ystafelloedd ymolchi/Ystafelloedd cawod gyda thoiled a basn golchi dwylo	
Ystafelloedd ymolchi/Ystafelloedd cawod heb doiled na basn golchi dwylo	
Toiled ar wahân gyda basn golchi dwylo	
Sinciau gyda draeniad	
Ceginau	

Os oes gan yr eiddo nifer o unedau gosod ar wahân, defnyddiwch y daflen Gwybodaeth Ychwanegol ar gefn y ffurflen hon er mwyn darparu'r manylion ar gyfer pob uned osod unigol.

### 3.7 Faint o unedau gosod ar wahân sydd yn yr eiddo? (gweler nodyn arweiniol 7).



### 3.13 Pa hyfforddiant iechyd a diogelwch ydych chi'n ei gynnig i breswylwyr?

---

---

---

---

### 3.14 A yw'r holl ddodrefn yn cydymffurfio â Rheoliadau Dodrefn a Deunyddiau Dodrefnu (Diogelwch Tân) 1988 (fel y'u diwygiwyd)? Ydy Nac ydy

### 3.15 A ddarperir synwryddion carbon monocsid mewn ystafelloedd a ddefnyddir fel llety byw sy'n cynnwys offer sy'n llosgi nwy, tanwydd LPG neu danwydd solet? Rhowch fanylion y nifer a'u lleoliad. Ie Na

---

---

### 3.16 **NWY A THRYDAN** A oes gan yr eiddo gyflenwad nwy?

Oes/Nac oes

#### Gosodiadau Nwy

Rhaid i chi ddarparu copi o'r Cofnod(ion) Diogelwch Nwy cyfredol sy'n cynnwys yr holl offer nwy yn yr eiddo gyda'r cais hwn. Rhaid i'r Cofnod fod o fewn ei ddyddiad a dangos bod yr offer mewn cyflwr boddhaol. (Mae'n ofynnol i chi sicrhau bod yr holl offer etc. wedi'u gwirio'n flynyddol gan beiriannydd cofrestredig Gas Safe).

#### A oes gan yr eiddo gyflenwad trydanol?

Oes/Nac oes

#### Gosodiadau Trydanol

Ynghyd â'r cais hwn, rhaid i chi ddarparu copi o Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol Domestic cyfredol a boddhaol ar gyfer yr eiddo, a gwblhawyd gan beiriannydd trydanol cymwys. Rhaid i'r dystysgrif fod o fewn ei dyddiad (uchafswm o 5 mlynedd) ac ni dderbynnir bod tystysgrifau â diffygion côd 1 neu gôd 2 yn foddhaol.

### 3.17 **GWRESOGI AC EFFEITHLONRWYDD YNNI**

(a) Pa fath o system wresogi sydd gan yr eiddo? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol). Gwres canolog nwy  Gwresogyddion gwres canolog trydanol/stôr-  
Gwresogyddion/tanau nwy sefydlog  gwresogyddion gyda'r hwyr   
Tanau tanwydd solet  Gwresogyddion/tân trydanol sefydlog

Os yw'n wahanol, rhowch fanylion.

---

---

#### (b) A oes Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer yr eiddo? Oes/Nac oes

DS Rhaid i chi gyflwyno Tystysgrif Perfformiad Ynni gyda'r cais hwn.

**RHOI GWYBOD I BOBL AM Y CAIS AM DRWYDDED**

**Rhaid i chi roi gwybod i rai pobl yn ysgrifenedig eich bod wedi gwneud y cais hwn neu roi copi ohono iddynt. Darperir ffurflen yng nghefn y ffurflen gais hon y gallwch ei defnyddio at y diben hwn. Mae'r nodiadau arweiniol yn rhestru'r bobl y dylech roi gwybod iddynt.**

- (a) A oes unrhyw un (heblaw chi) yn berchen ar yr eiddo e.e. fel rhydd-ddeiliad, prif brydleswr, perchennog ar y cyd? **Oes / Nac oes**
- (b) A oes morgais ar yr eiddo? **Oes / Nac oes**
- (c) A oes gan yr eiddo unrhyw denant neu lesddeiliad sydd â mwy na 3 blynedd yn weddill ar y denantiaeth neu'r brydles? **Oes / Nac oes**
- (d) Ai rhywun heblaw chi yw deiliad arfaethedig y drwydded? **Ie/Na**
- (e) Ai rhywun heblaw chi yw'r rheolwr arfaethedig? **Ie/Na**
- (f) A oes unrhyw un arall wedi cytuno i gael ei rwymo gan amodau'r **Oes / Nac oes** drwydded, os caiff ei rhoi?

**Rhaid i chi roi'r wybodaeth ganlynol i bob un o'r bobl (neu'r sefydliadau) hyn.**

- Eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost (os oes un).
- Enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost (os oes un) deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi fydd hwnnw).
- Mai cais am drwydded Tai Amlfeddiannaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Tai 2004 yw hwn.
- Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cais ar ei gyfer.
- Enw a chyfeiriad yr awdurdod tai lleol y caiff y cais ei gyflwyno iddo.
- Y dyddiad y bydd y cais yn cael ei gyflwyno.

(g) Rhowch fanylion y bobl hynny rydych wedi'u hysbysu am y cais am drwydded.

Enw'r person a hysbyswyd	Cyfeiriad	Diddordeb mewn eiddo neu gais (e.e., rhydd-ddeiliad, deiliad prydles, darparwr morgais, tenant, deiliad trwydded arfaethedig neu reolwr)	Dyddiad yr hysbyswyd



Rwy'n/Rydyn ni'n datgan bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy/ein gwybodaeth. Rwy'n/Rydyn ni'n deall fy mod/ein bod yn troseddu os byddaf/byddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth i unrhyw awdurdod tai lleol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau o dan unrhyw rannau o Ran 1 i 4 Deddf Tai 2004 sy'n ffug neu'n gamarweiniol ac rwyf i'n/rydyn ni'n gwybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol neu rwyf i'n/rydyn ni'n ddiotal o ran a yw'n ffug neu'n gamarweiniol.

Rwy'n/rydyn ni'n datgan fy mod i/ein bod wedi hysbysu'r bobl a restrir yn Adran 3.18 uchod am y cais hwn ac mai dyma'r unig bobl sy'n hysbys i mi/ni y mae'n ofynnol eu hysbysu fy mod wedi gwneud y cais hwn.

Rwy'n/rydyn ni'n datgan bod unrhyw offer nwy, offer trydanol a dodrefn a ddarperir at ddefnydd tenantiaid yn yr eiddo mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth ddiogelwch berthnasol.

Rwy'n/rydyn ni'n datgan bod y synwryddion/larymau mwg a gwres a osodwyd yn y tŷ fel y disgrifir ar y ffurflen hon mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio â'r holl wybodaeth berthnasol am ddiogelwch.

Rwy'n/rydyn ni'n datgan bod adnoddau ariannol digonol ar gael i gynnal a chadw'r eiddo gan sicrhau iechyd a diogelwch y tenantiaid a chyflawni'r holl rwymedigaethau statudol eraill.

Rwy'n/rydyn ni'n deall efallai y bydd angen i'r cyngor gynnal ymchwiliadau i asesu a ydw i'n/rydyn ni'n berson/bobl 'addas a phriodol' at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004. Yr wyf i, drwy hyn yn awdurdodi'r cyngor i wneud ymholiadau o'r fath a rhannu gwybodaeth fel bod ei angen arno.

Gall ymholiadau o'r fath gynnwys gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, cysylltu â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Awdurdodau Lleol eraill.

---

### Deiliad trwydded arfaethedig

---

Enw Llawn:

Llofnod:  
**Rheolwr arfaethedig**

Dyddiad:

---

Enw Llawn:

Llofnod:

Dyddiad:

# Hysbysiad o Gais am drwydded Tai Amlfeddiannaeth Orfodol/Ychwanegol

Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006

**Mae'r rheoliadau uchod yn ei gwneud yn ofynnol i mi eich hysbysu bod cais trwyddedu o dan Ran 2 o Ddeddf Tai 2004 wedi'i wneud, neu y bydd yn cael ei wneud mewn perthynas â:**

Eiddo i'w drwyddedu:

---

## Deiliad trwydded arfaethedig

Enw:

---

Cyfeiriad:

---

Rhif ffôn:

E-bost:

---

## Person sy'n llenwi'r ffurflen gais (os yw'n wahanol i ddeiliad arfaethedig y drwydded)

Enw:

---

Rhif ffôn:

E-bost:

---

## Awdurdod Tai Lleol y cyflwynwyd y cais iddo:

Cyngor Abertawe, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN

---

Dyddiad gwneud y cais (i'w wneud):

---

Llofnod:

---

Dyddiad:

---

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am drwyddedu tai amlfeddiannaeth yn Abertawe, cysylltwch â'r Tîm Tai Amlfeddiannaeth yn y cyfeiriad uchod neu e-bostiwch [hph@abertawe.gov.uk](mailto:hph@abertawe.gov.uk) neu ewch i'n gwefan [www.abertawe.gov.uk/trwyddedutaiamlbreswyl](http://www.abertawe.gov.uk/trwyddedutaiamlbreswyl)



### Nodiadau i'w darllen wrth lenwi'r ffurflen gais

- (1) Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cwblhau'r ffurflen gais.
- (2) Os mai chi yw'r person sy'n llenwi'r ffurflen gais hon, yna chi yw'r **ymgeisydd**. Fel yr ymgeisydd mae'n ofynnol i chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen gais a llofnodi'r datganiad ar dudalen 15 y ffurflen, sy'n cadarnhau bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth.
- (3) **Deiliad arfaethedig y drwydded** yw'r person y bydd ei enw ar y drwydded (os rhoddir hon). Rhaid mai deiliad arfaethedig y drwydded yw'r person mwyaf addas i ddal y drwydded ar gyfer yr eiddo. Mae'n debygol mai dyma'r person sy'n derbyn y rhent ar gyfer yr eiddo. (h.y. yr incwm o'r eiddo).
  - Ni fydd holl adrannau'r ffurflen yn berthnasol i bob ymgeisydd. Yn syml, rhwch 'dd/b' yn erbyn y rhai nad ydynt yn berthnasol i'ch cais.
  - Lle mae rhywbeth yn berthnasol, ond nid yw eto yn eich eiddo, nodwch eich bwriad o ran hyn.
  - Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon mai deiliad arfaethedig y drwydded yw'r person mwyaf addas i wneud hynny. Fel arfer, byddai'r awdurdod hwn yn disgwyl i'r person hwnnw fod naill ai'n berchennog yr eiddo neu'n rheolwr cymwys, a bydd angen cyfiawnhad lle nad yw hyn yn wir.
  - Bydd y **rheolwr** hefyd yn cael ei enwi ar y drwydded (os rhoddir hon). Ni all yr awdurdod roi trwydded oni bai ei fod yn fodlon bod trefniadau rheoli digonol ar waith ar gyfer yr eiddo.
- Os mai cwmni yn hytrach na pherson yw'r perchennog neu'r rheolwr arfaethedig, yna dylid darparu manylion llawn, gan gynnwys enw ysgrifennydd y cwmni a/neu gyfarwyddwyr lle y bo'n berthnasol, cyfeiriad gohebu a'r swyddfa gofrestredig. Defnyddiwch Adran 3.19 Manylion Ychwanegol i roi'r wybodaeth hon.
- (4) O ran datganiadau **Pobl Addas a Phriodol**, mae darpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974 (fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012) yn berthnasol fel yr isod i'r rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn ar ddyddiad y gollfarn.

Gwarediad	Cyfnod Adsefydlu
Rhwng 30 mis a 48 mis o garchar	7 mlynedd o ddiwedd y ddeddfryd (gan gynnwys amser ar drwydded)
Mwy na 6 mis i 30 mis o garchar	4 blynedd o ddiwedd y ddeddfryd (gan gynnwys amser ar drwydded)
6 mis neu lai o garchar	2 flynedd o ddiwedd y ddeddfryd (gan gynnwys amser drwydded)
Gorchymyn Prawf	12 mis o ddyddiad y gorchymyn
Gorchymyn Cymunedol	12 mis o ddyddiad y gorchymyn*
Dirwy	Blwyddyn o ddyddiad y gollfarn
Rhyddhad Amodol lawndal	Diwrnod olaf y mae'r gorchymyn ar waith Ar ôl i'r iawndal gael ei dalu'n llawn
Rhyddhad Diamod	Dim cyfnod adsefydlu

\* Neu 2 flynedd o ddyddiad y gollfarn os nad yw'r gorchymyn yn nodi'r dyddiad olaf y mae ar waith.

(5) Bydd y cynllun y mae'n rhaid i chi ei gynnwys yn cynorthwyo swyddogion wrth brosesu eich cais. Gellir ei ddarlunio â llaw, ond rhaid iddo gynrychioli cynllun llawn yr eiddo yn gywir. Dylai hyn gynnwys pob drws ac allanfa, unrhyw ragofalon tân a dylai nodi defnydd pob ystafell.

(6) Defnyddiwch Adran 3.19 Manylion Ychwanegol i roi unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei darparu neu i barhau ag atebion, y dylid cyfeirio atynt yn unol â hynny.

## (7) Diffiniadau

At ddibenion y cais hwn, mae Deddf Tai 2004 yn darparu'r diffiniadau canlynol:

**Aelwyd sengl** - Ni ddylid ystyried bod pobl yn ffurfio aelwyd sengl oni bai fod pob un ohonynt yn aelodau o'r un teulu. At y diben hwn, mae person yn aelod o'r un teulu â pherson arall os yw:

- ef a'r person arall yn briod neu'n byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig (neu berthynas gyfwerth ar gyfer parau o'r un rhyw);
- un ohonynt yn berthynas;
- un ohonynt yn berthynas i un aelod o bâr ac mae'r llall yn berthynas i aelod arall y pâr.

**Uned Osod** - yw, er enghraifft, ystafell unigol mewn tŷ a rennir neu un fflat hunangynhwysol.

(8) **Rhent Doeth Cymru** yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer cofrestru landlordiaid a thrwyddedu asiantiaid a landlordiaid o dan Ran 1, Deddf Tai (Cymru) 2014, a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd 2015. Ewch i [www.rhentudoeth.llyw.cymru](http://www.rhentudoeth.llyw.cymru) i gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru a gwneud cais am drwydded. Mae hon yn ffurflen ar wahân sy'n ychwanegol at drwyddedu HMO.

## (9) Ffioedd

Mae'r ffi a fydd yn daladwy ar gyfer y drwydded yn dibynnu ar uchafswm y preswylwyr sy'n byw yn yr eiddo. Mae manylion ar y daflen amgaeedig.

## (10) Datganiad

Rhaid i chi roi gwybod i rai pobl yn ysgrifenedig eich bod wedi cyflwyno'r cais hwn neu roi copi ohono iddynt. Y bobl hynny yw:

- Unrhyw gwmni sy'n darparu morgais i'r eiddo (e.e. banc, cymdeithas adeiladu neu gwmni ariannu sydd wedi rhoi morgais ar gyfer yr eiddo).
- Unrhyw berchennog yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os nad chi yw hwnnw) h.y. y rhydd-ddeiliad ac unrhyw brif brydleswr sy'n hysbys i chi.
- Unrhyw berson arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hir o'r eiddo neu unrhyw ran ohono (gan gynnwys fflat) sy'n hysbys i chi, ac eithrio tenant statudol neu denant arall y mae ei brydles neu ei denantiaeth yn llai na thair blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol).
- Deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi yw hwnnw).
- Yr asiant rheoli arfaethedig (os oes un) (os nad chi yw hwnnw).
- Unrhyw berson sydd wedi cytuno y bydd yn rhwym i unrhyw amodau mewn trwydded os y'i rhoddir.

Rhaid i chi ddweud wrth bob un o'r bobl hyn:

- Eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost neu rif ffacs (os oes un).
- Enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost neu rif ffacs (os oes un) deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi fydd hwnnw).
- Mai cais am Drwydded HMO o dan Ran 2 Deddf Tai 2004 yw hwn.
- Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cais ar ei gyfer.
- Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Lleol y caiff y cais ei gyflwyno iddo.
- Dyddiad cyflwyno'r cais.

**Rhaid i chi lofnodi'r Datganiad ar dudalen 15 i gadarnhau eich bod wedi gwneud hyn.**

## (11) Hysbysiad o Brosesu Data

Er mwyn bodloni rhwymedigaethau Rhan 232 o Ddeddf Tai 2004, rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'r holl drwyddedau a roddir ganddynt. Rhaid i'r gofrestr gynnwys y manylion a ragnodwyd ac mae'n rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harolygu gan aelodau'r cyhoedd. Rhaid darparu copiâu o'r gofrestr, neu ddarnau ohoni, i berson sy'n gofyn amdani; gall hyn fod yn amodol ar dalu ffi resymol.

Cyhoeddir fersiwn gryno o'r gofrestr (heb enw na chyfeiriad deiliad neu reolwr y drwydded) ar wefan yr awdurdod lleol [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos)

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y cais hwn. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Ddeddf Tai 2004. Defnyddir eich gwybodaeth i'n helpu i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Byddai hyn yn cynnwys cyrff rheoleiddio fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu'r heddlu, at ddibenion canfod ac atal twyll neu unrhyw ddibenion eraill a ganiateir gan y gyfraith.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan yn [www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd](http://www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd)

## (12) Rhestr wirio

Sicrhewch eich bod wedi amgáu'r canlynol gyda'r cais hwn.

Ffi

Cofnod Diogelwch Nwy

Adroddiad am Gyflwr  
Gosodiadau Trydanol

Tystysgrif Perfformiad Ynni

## (13) Ffi'r Drwydded a Chyflwyno eich Cais

Y ffordd orau o gyflwyno'ch cais yw ei sganio a'i e-bostio, ynghyd â thystysgrifau perthnasol i [hph@abertawe.gov.uk](mailto:hph@abertawe.gov.uk). Os na allwch wneud hynny, anfonwch eich cais i'r Tîm Tai Amlfeddiannaeth, Cyfarwyddiaeth Lleodedd, Cyngor Abertawe, y Ganolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN.

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â thalu'r ffi unwaith y bydd y cais wedi'i wirio. Gweler y daflen ar wahân am strwythur ffioedd neu edrychwch ar [www.abertawe.gov.uk/trwyddedutaiamlbreswyl](http://www.abertawe.gov.uk/trwyddedutaiamlbreswyl)

## (14) Gwybodaeth bellach

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos). Gallwch hefyd e-bostio [hph@abertawe.gov.uk](mailto:hph@abertawe.gov.uk) neu ffonio (01792) 635600.

## (15) Nodyn i Gloi

Mae'r darpariaethau trwyddedu sy'n ymwneud â HMO yn cynyddu ac yn ffurfioli'r rhwymedigaethau ar gyfer y bobl sy'n gyfrifol am eiddo o'r fath. Dylech gymryd amser i ddarllen y ffurflen gais cyn ei chwblhau ac ystyried sut bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu bodloni.

Mae Polisi Trwyddedu HMO Cyngor Abertawe 2020 yn cynnwys manylion am amodau trwydded, pryd y rhoddir trwydded, opsiynau gorfodi a manylion ein hardaloedd Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth ychwanegol. Gallwch ddarllen y Polisi ar ein gwefan yn [www.abertawe.gov.uk/trwyddedutaiamlbreswyl](http://www.abertawe.gov.uk/trwyddedutaiamlbreswyl)

Yn y pen draw, y bobl a enwir fydd yn atebol am fodloni'r amodau a gynhwysir gydag unrhyw drwydded a roddir.

**Darparwch gynllun o'r eiddo. Nid oes rhaid iddo fod i raddfa a gellir ei ddylunio â llaw, ond dylai ddangos defnydd pob ystafell a phresenoldeb cyfarpar rhagofalon tân.**